**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
Prif Weithredwr GIG Cymru
**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
**Health** and Social Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf: AG/AE/SB

28 Ebrill 2017

Annwyl Mr Ramsay

Defnyddio cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer meddyginiaeth yn GIG Cymru.

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 6 Mawrth addewais roi manylion i'r Pwyllgor am y defnydd presennol o gypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau ar draws byrddau iechyd. Cytunais hefyd i roi eglurhad pellach a manylach ar y ddadl ehangach ynghylch y manteision a allai ddeillio o ddefnyddio cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau.

<u>Y defnydd presennol o gypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau.</u>

Ers 2011-12, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £4.5m ar gaffael cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau mewn ysbytai yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys dros £1.8m yn 2016-17

Ar ddiwedd Mawrth bydd byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre wedi gosod cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer meddyginiaethau ar 119 o wardiau ysbyty. Yn ogystal â'u gosod ar wardiau, mae cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer meddyginiaethau wedi cael eu gosod mewn 74 o feysydd clinigol eraill lle defnyddir meddyginiaethau fel rhan o'r drefn, gan gynnwys Damweiniau ac Achosion Brys, theatrau, Unedau Derbyniadau Meddygol, Unedau Therapi Dwys a Gwasanaethau Ymarferwyr Cyffredinol y Tu Allan i Oriau. Yn ogystal mae cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0251182
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk

Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

dosbarthu meddyginiaethau yn cael eu gosod gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a gorsafoedd ambiwlansys ledled Cymru.

<u>Gwireddu manteision cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau</u>

Ceir tystiolaeth dda fod cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau yn lleihau gwallau gweinyddu o'u cymharu â defnyddio cypyrddau neu trolïod stoc ar gyfer meddyginiaethau. Yn ôl yr ymchwil mae manteision hefyd yn sgil gostyngiad yn yr amser nyrsio a dreulir ar weithgareddau sy'n ymwneud â meddyginiaethau; cynnydd yn yr amser nyrsio ar gyfer cyswllt â chleifion; gwell rhestri o stoc a phrosesau archebu; ac efallai y bydd modd sicrhau diogelwch meddyginiaethau, y gallu i 'w holrhain, a llai o gyfle i ddargyfeirio meddyginiaethau.

Er bod cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer meddyginiaethau yn gysylltiedig â'r manteision hyn, mae i ba raddau y mae modd sicrhau'r manteision hyn yn cael ei wrthbwyso gan ymarferoldeb eu defnyddio a'r gweithdrefnau a'r prosesau sy'n bodoli mewn meysydd clinigol unigol. Y rheswm dros hyn, i raddau helaeth, yw bod sawl ffordd o ddefnyddio cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau yn amrywio o'u defnyddio i stocio trolïod traddodiadol ar gyfer meddyginiaethau ar ward neu yn ymyl mannau cleifion i'w defnyddio fel ffynhonnell i roi meddyginiaethau yn uniongyrchol i gleifion. Mae'r manteision a allai ddeillio o gyflwyno'r defnydd o gypyrddau o'r fath yn dibynnu'n helaeth ar y ffordd y caiff meddyginiaethau eu storio a'u gweinyddu mewn maes clinigol penodol.

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor, esboniodd y Prif Swyddog Fferyllol fod manteision cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau ar wardiau sydd wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer gweinyddu mewn un lle a defnyddio cyffuriau cleifion eu hunain yn debygol o fod yn llai nag ar y wardiau hynny lle mae trolïod mwy traddodiadol ar gyfer meddyginiaethau ward yn dal i gael eu defnyddio.

At ei gilydd, mae byrddau iechyd wedi mynd ati i gyflwyno cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer meddyginiaethau mewn ffordd sy'n blaenoriaethu'r meysydd hynny megis adrannau damweiniau ac achosion brys lle mae cleifion yn annhebygol o ddefnyddio eu meddyginiaethau eu hunain; lle mae mynediad prydlon i feddyginiaethau yn hanfodol; a lle mae manteision cypyrddau o ran diogelwch ac effeithlonrwydd yn debygol o fod ar eu huchaf.

Mae'r Prif Swyddog Fferyllol yn parhau i weithio gyda Grŵp Prif Fferyllwyr y GIG i ddatblygu ein dull gweithredu o ran defnyddio cypyrddau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau ar wardiau a byddwn yn parhau i flaenoriaethu buddsoddi cyfalaf yn yr holl feysydd lle mae manteision sylweddol yn gysylltiedig â'u defnyddio.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**

cc: Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Llywodraeth Cymru
Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
Blwch Postio CGU
Blwch Postio'r Cabinet